



The Open  
University  
Y Brifysgol  
Agored

WALES CYMRU

## Rita



Helô eto. Mae sawl mis wedi mynd heibio ers i mi eich gweld chi – gobeithio'ch bod chi'n iawn.

Felly, ar ôl i mi greu'r drafft cyntaf o'm cwrs ar-lein, fe ges i adborth defnyddiol gan fy nghydweithwyr. Fe wnes i rai newidiadau i'm deunyddiau o ganlyniad i'w sylwadau, a rhoddodd yr arbenigwyr hygyrchedd bob math o adnoddau a chyngor i mi i wneud fy nghwrs yn hygyrch, a fu'n gymorth mawr. O'r diwedd, roeddwn yn barod i'w ddefnyddio gyda charfan o ddysgwyr. Roedd y dysgwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith nad oedd rhaid iddyn nhw ddod i'r dosbarth, ac roedden nhw'n credu bod yr ymagwedd 'Dysgu Gwrthdro' yn newid braf. Roedd y sylwadau ynglŷn â'm deunyddiau'n gymysg, ond yn gadarnhaol ar y cyfan. Oherwydd hwn oedd fy ymgais cyntaf, gofynnais i'r dysgwyr roi adborth cyffredinol i mi mewn holiadur, ac yna gofynnais i wyth ohonyn nhw fy helpu trwy gael cyfweiliad byr gyda mi. Graddiais yr ymatebion i'r holiadur o ran pwy oedd y mwyaf cadarnhaol yn gyffredinol, a chyfwelais â'r ddau ar y brig, y ddau ar y gwaelod, a phedwar arall ar gamau yn y canol. Dim ond deng munud yr un oedd y cyfweiliadau oherwydd roedd y dysgwyr yn rhoi eu hamser i mi a doeddwn i ddim eisiau rhoi baich cyfweiliad hir arnynt. Fe roddon nhw adborth defnyddiol iawn i mi am yr hyn roedden nhw'n ei hoffi, yr hyn nad oedden nhw'n ei hoffi, a hyd yn oed yr hyn y bydden nhw eisiau i mi ei gynnwys ar gyfer dysgwyr yn y dyfodol. Rhoddodd un myfyriwr, yr ydw i'n credu efallai ei fod yn ddyslecsig, wybodaeth ddiddorol iawn i mi am y ffordd yr oedd yn gweld fy neunyddiau dysgu. Er y cafodd drafferth gydag ambell eitem, at ei gilydd, credai fod natur ar-lein y cwrs yn fwy defnyddiol o lawer iddo na'r amgylchedd ystafell ddosbarth a dywedodd ei fod wedi 'ennyn y gorau ynddo a gwneud iddo eisiau ceisio llwyddo'. Roedd rhaid i mi ddal y dagrau yn ôl!

Diolch i'r adborth gan fy nysgwyr, rwy'n gwybod sut i wella'r cwrs ar gyfer y tro nesaf, a byddaf hefyd yn chwilio am fwy o OER y gallwn eu cynnwys.

Rydw i mor falch y dilynais y cwrs OpenLearn. Nid oedd yn rhwydd, yn sicr, ond fe ddysgais gymaint ac fe roddodd yr hyder i mi symud i addysgu ar-lein. Rwy'n dal i fod ymhell o fod yn arbenigwr, ond rydw i wedi dechrau fy nhaith. Yn wir, rwy'n archwilio opsiynau ar gyfer astudio pwnc dysgu ar-lein ymhellach gyda'r Brifysgol Agored – gallai hyn roi'r cyfle i mi weithio gyda thiwtoriaid arbenigol ac ymuno â chymuned addysgwyr, oll yn dysgu gyda'n gilydd sut i wella ein harferion addysgu ar-lein. Rwy'n credu y gallai fy helpu i barhau i ddatblygu fel athrawes ar-lein ac, efallai, fy ngalluogi i symud i addysgu ar-lein yn gyfan gwbl.

Diolch am weithio trwy'r cwrs hwn gyda fi. Gobeithiaf ei fod wedi'ch helpu chi cymaint ag y mae wedi fy helpu i. Dymunaf y gorau i chi ar gyfer beth bynnag y byddwch yn ei wneud nesaf – efallai y caf i gyfle i siarad â rhai ohonoch ar-lein – fe allen ni fod yn gyfeillion astudio! Ond am y tro, ffarwel i chi. Pob hwyl!